Cofnodion cyfarfod cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 27 Tachwedd 2017, am 7:00pm.

PRESENNOL: Cynghorwyr Jim Bryan (Maer) ac Ian Lewney (Dirprwy Faer)
Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, Rosie Hughes, Menna Jones, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

130. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Gavin Harris.

131. DATGAN BUDDIANNAU

Derbyniwyd datganiad o fudd personol fel a ganlyn: Eitem 12 – Cais am gymorth ariannol gan Grŵp Cymunedol Rhuthun – Cynghorydd Dave Snape; Eitem 13 – Cais am gymorth ariannol gan CAB Rhuthun – y Cynghorwyr Heather Williams ac Emrys Wynne; Eitem 15 – Cais am gymorth ariannol gan Gymdeithas Efeillio Rhuthun – y Cynghorwyr Menna Jones ac Emrys Wynne ac Eitem 17 – Ymgynghoriad ar Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Cynghorydd Emrys Wynne.

132. CYFLWYNIAD GAN HEDDLU RHUTHUN

Croesawodd y Maer y Sarjant Jonny Hill a ddarparodd ystadegau troseddau am y cyfnod 25 Mehefin 2017 i 25 Tachwedd 2017 o'u cymharu gyda'r un cyfnod pum mis yn 2016 i'r aelodau. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau. Cyfeiriwyd bod rhywrai wedi torri'r ffenestr a dwyn nwyddau o'r Co-op y noson flaenorol, defnydd cannabis yn y dref, gyda'r heddlu'n ymwybodol o'r lleoliadau a ddefnyddir a'r problemau parcio yn Haulfryn a gyrru gwrthgymdeithasol ym meysydd parcio Heol y Parc a Chae Ddôl. Hefyd adroddiad bod oddeutu 40 o gerbydau y diwrnod yn anwybyddu'r arwydd dim troi i'r dde ar gyffordd Stryd y Rhos gyda Ffordd Llanfair. Cyfeiriodd y Sarjant Hill hefyd at yr arferiad o weithredu fel y gwcw sy'n dod yn fwy amlwg, lle mae unigolyn sy'n ymwneud â gweithgareddau anghyfreithlon, yn cynnwys cyffuriau yn arferol, yn manteisio ar gartref unigolion bregus a gofynnodd i'r aelodau ei hysbysu os oeddynt yn gwybod am unrhyw enghreifftiau o hyn.

133. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei fod wedi bod yn y digwyddiadau isod.

24.10 Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
29.10 Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
30.10 Agor wythnos digwyddiadau Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun
01.11 Cyfarfod trafod dechreuol ynghylch yr Hen Lys yn y Manorhaus
02.11 Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Efeillio Rhuthun
04.11 Arddangosfa tân gwyllt yn y Ganolfan, Llanfwrog
05.11 Gwasanaeth Dinesig Maer Caerwys
06.11 Pwyllgor Rheoli Canolfan Awelon
07.11 Cyfarfod Pwyllgor Gŵyl Rhuthun
08.11 Cyfarfod y Grŵp Busnes a Phwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose
12.11 Gwasanaeth Sul y Cofio
18.11 Agor Ffair Grefftau'r Inner Wheel yng Nghanolfan Awelon, cyflwyno'r gwobrau ym Mhencampwriaeth Flynyddol Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Theatr John Ambrose a Chinio Elusennol y Maer
21.11 Cyfarfod y Grŵp Busnes
23.11 Cyfarfod Cymdeithas Efeillio Rhuthun
24.11 Cyngor Corawl y Gaeaf Maer Rhuddlan yn Eglwys y Santes Fair, Rhuddlan

134. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cyng. Ian Lewney Gwasanaeth Sul y Cofio a Chinio Elusennol y Maer

Cyng. Keiran Allsopp-Robson	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn Nhreffynnon, Gwasanaeth Sul y Cofio a Chinio Elusennol y Maer
Cyng. Stephen Beach	Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn Nhreffynnon, ymgynghoriad ynghylch maes chwarae'r Caeau'r Chwarae Coffa yng Nghlwb Peldroed Rhuthun, digwyddiadau Wythnos Codi Ymwybyddiaeth Ymddiriedolaeth Cadwraeth Castell Rhuthun, Gwasanaeth Sul y Cofio a Chinio Elusennol y Maer
Cyng. Gavin Harris	Cyfarfod trafod yr Hen Lys
Cyng. Ken Hawkins	Addasu amser cloc yr Eglwys gyda chymorth Simeon Jones a David Smart, cyfarfod trafod yr Hen Lys, arddangosfa tân gwyllt, Gwasanaeth Sul y Cofio a Chinio Elusennol y Maer
Cyng. Rosie Hughes	Gwasanaeth Sul y Cofio
Cyng. Robert Owen-Ellis	4 sesiwn Banc Bwyd, cyfarfod gydag Adran Addysg y Cyngor Sir ynghylch yr ysgol newydd ar safle Glasdir a Gwasanaeth Sul y Cofio
Cyng. Menna Jones	Ymgynghoriad ynghylch maes chwarae'r Caeau'r Chwarae coffa yng Nghlwb Peldroed Rhuthun, cyfarfod trafod yr Hen Lys, Gwasanaeth Sul y Cofio a Chinio Elusennol y Maer
Cyng. Anne Roberts	Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, cyfarfod Ymlaen Rhuthun, digwyddiadau Wythnos Ymwybyddiaeth Castell Rhuthun, ymgynghoriad ynghylch maes chwarae'r Caeau'r Chwarae coffa yng Nghlwb Peldroed Rhuthun, te Calan Gaeaf i drigolion Trosnant, cyfarfod trafod yr Hen Lys, arddangosfa tân gwyllt, cyfarfod Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch, Gwasanaeth Sul y Cofio, cyfarfod Ymlaen Rhuthun ynghylch gweithgareddau Nadolig, cyfarfod y gweithgor Statws Croesawu Bysiau Moethus a Chinio Elusennol y Maer
Cyng. Dave Snape	Arddangosfa tân gwyllt, cyfarfod grŵp busnes Rhuthun, cyfarfod Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose, Gwasanaeth Sul y Cofio a Chinio Elusennol y Maer
Cyng. Heather Williams	Cyfarfod trafod yr Hen Lys, Gwasanaeth Sul y Cofio, cyfarfod y gweithgor Statws Croesawu Bysiau Moethus a Chinio Elusennol y Maer
Cyng. Ifan Wyn	Cyfarfod Pwyllgor Rheoli Theatr John Ambrose, Gwasanaeth Sul y Cofio a Chinio Elusennol y Maer
Cyng. Emrys Wynne	Cyfarfod trafod yr Hen Lys a Gwasanaeth Sul y Cofio

135. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD*: cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2017 yn gofnod cywir.*

136. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

137. IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

138. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

139. AMENITIES COMMITTEE

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2017.

PENDERFYNWYD*: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

140. CAIS AM LYTHYR CEFNOGAETH

Ystyriodd yr aelodau gais am lythyr cefnogaeth i gais Theatr Gerddorol Rhuthun am gyllid Treftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect yn ymwneud â'r Ail Ryfel Byd, 'Dan y Radar', i'w gynnal ym Medi 2018, yn dilyn cael manylion mewn cyflwyniad gan Julie Masters ar 13 Tachwedd. Roedd yr aelodau'n teimlo ei fod yn syniad rhagorol a phwysleisiwyd y dylid cynnwys grwpiau lleol, fel y Gymdeithas Hanes a'r Gymdeithas Ddinesig. Awgrymodd y Dirprwy Faer y gellid sicrhau hynny trwy i aelodau'r Cyngor Tref fod yn rhan o'r Grŵp Llywio a fyddai'n cynllunio a threfnu'r digwyddiadau maes o law.

PENDERFYNWYD*: darparu llythyr yn cefnogi'r prosiect arfaethedig.*

141. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – GRŴP CYMUNED RHUTHUN

Ystyriodd yr aelodau wybodaeth a gynhwyswyd mewn neges e-bost gan Mr Ron Bell, Cadeirydd Grŵp Cymuned Rhuthun, yn esbonio na fyddai arddangosfa tân gwyllt yn rhan o'r digwyddiad eleni, oherwydd nad oedd lleoliad addas ar gyfer gosod y tân gwyllt yn ddiogel. Cyflwynodd gais diwygiedig am £500. Trafodwyd hyn gan yr aelodau a chynigiwyd ac eiliwyd bod y Cyngor Tref yn cyfrannu trwy dalu am logi'r system sain, a amcangyfrifwyd ar £300, ar ôl derbyn anfoneb briodol.

PENDERFYNWYD*: bod y Cyngor Tref yn cyfrannu trwy dalu am logi'r system sain, a amcangyfrifwyd ar £300, ar ôl derbyn anfoneb briodol.*

142. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYNGOR AR BOPETH RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol o £2,000 tuag at ddarparu'r gwasanaeth cyngor a gwybodaeth o swyddfa CAB Rhuthun. Cadarnhaodd y Clerc bod arian yn y gyllideb ar gyfer hyn, ac roedd y llythyr yn cadarnhau y byddai unrhyw arian a roir yn cael eu clustnodi ar gyfer Swyddfa Rhuthun.

PENDERFYNWYD*: cyfrannu £2,000 i Gyngor ar Bopeth Rhuthun.*

143. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYMDEITHAS CYMUNED LLANFWROG

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol o £300 tuag at welliannau i'r goleuadau llawr gwaelod yn Y Ganolfan. Barn yr aelodau oedd mai mater gweithredol oedd hyn. Hefyd gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch gosod y lifft ar gyfer mynediad i'r anabl a dderbyniodd gymorth ariannol yn flaenorol. Hefyd crybwyllwyd bod y Gymdeithas wedi derbyn cyllid tuag at yr arddangosfa tân gwyllt ond roedd yr arwyddion hysbysebu yn Saesneg yn unig, yn groes i delerau darparu cymorth ariannol sy'n datgan y dylai cyrff y dyfernir cyllid iddynt gadw at Gynllun Iaith Gymraeg Cyngor Tref Rhuthun trwy ddarparu'r holl ddeunyddiau hysbysebu a marchnata yn ddwyieithog.

PENDERFYNWYD*: gwrthod y cais am gymorth ariannol, gwneud ymholiadau am y cynnydd o ran gosod y lifft ac atgoffa'r Gymdeithas am yr ymrwymiadau i gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor Tref.*

144. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL – CYMDEITHAS EFEILLIO RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am gymorth ariannol £1,500 tuag at drefniadau dathlu 25 mlynedd o efeillio a chroesawu gwesteion o Briec. Esboniwyd bod y Gymdeithas wedi derbyn £500 o gymorth ariannol ym mis Gorffennaf, ac os oedd aelodau o blaid caniatáu'r cais, gellid ei roi yn y gyllideb a'i ddyfarnu ym mlwyddyn ariannol 2018/19.

PENDERFYNWYD: *bod yr aelodau'n fodlon cefnogi'r cais a dyfarnu'r arian ym mlwyddyn ariannol 2018/19.*

145. ADBORTH O DDIGWYDDIAD TRAFODAETH DDECHREUOL AM YR HEN LYS

Derbyniodd aelodau adborth o'r digwyddiad trafodaeth ddechreuol a gynhaliwyd yn y Manorhaus nos Fercher, 1 Tachwedd 2017. Roedd ymateb y rhai a oedd yn bresennol yn gadarnhaol ac yn cefnogi cynigion y Cyngor Tref. Roedd yr aelodau'n awyddus i fynd â hyn i

gynulleidfa ehangach a rhoi pwysau ar NatWest i ryddhau'r goriadau a gwahodd cynrychiolydd i gyfarfod i drafod y sefyllfa gyda'r Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD: *derbyn yr adborth a chysylltu gyda NatWest i wahodd cynrychiolydd i gyfarfod y Cyngor Tref.*

146. YMGYNGHORIAD AR ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ymateb Cyngor Tref Rhuthun i Adroddiad Blynyddol Drafft y Panel, yn enwedig Adran 13 yn ymwneud â Thaliadau i Aelodau Cynghorau Tref a chymuned. Roedd yr aelodau'n bryderus am y goblygiadau petai'n rhaid gwneud taliadau, ac roeddynt o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ariannu'r costau.
PENDERFYNWYD: *anfon llythyr gan Gyngor Tref Rhuthun at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch taliadau i Gynghorwyr Tref a Chymuned.*

147. BIN AR STRYD Y PRIORDY

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried gosod bin sbwriel / bin baw ci ar Stryd y Priordy gan nad oes darpariaeth yno ar hyn o bryd. Adroddodd y Clerc ei bod wedi gwneud ymholiadau a bod cynlluniau ar y gweill i osod bin wrth yr hen feddygfa ar Stryd y Priordy ac wrth yr arosfan bws ger Parc y Castell gynted ag y byddent wedi'u derbyn. Gofynnodd aelod am ymchwilio i'r posibilrwydd o osod teclynnau darparu bagiau baw ci pwrpasol o gwmpas y dref.
PENDERFYNWYD: *gwneud rhagor o ymholiadau am y teclynnau darparu bagiau baw ci pwrpasol.*

148. LLYTHYR ODDI WRTH GANGEN RHUTHUN Y BLAID LAFUR

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried ymateb Cyngor Tref Rhuthun i'r llythyr uchod ynghylch mynd i'r afael â phroblem unigrwydd ymhlith trigolion y dref. Roeddynt o'r farn bod yr ymholiad ynghylch ymddiriedolaeth addysg ar gyfer safleoedd Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras unwaith y byddai'n safle'n wag yn fater i Gyngor Sir Ddinbych. Cynigiodd aelod anfon llythyr i Gyngor Sir Ddinbych yn awgrymu y byddai'r safle yn ddelfrydol ar gyfer datblygu canolfan iechyd nesaf at Ysbyty Rhuthun.
PENDERFYNWYD: *anfon llythyr i Gyngor Sir Ddinbych ynghylch y cynlluniau arfaethedig ar gyfer safle Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras unwaith bo'r safle'n wag.*

149. ADNEWYDDU ENWAU PARTH

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu'r enwau parth ruthintowncouncil.gov.uk a cyngortrefrhuthun.gov.uk ar gost o £69.00 + TAW yr un am ddwy flynedd neu gofrestru ar gyfer enwau parth newydd .gov.wales a .llyw.cymru, ar gost o £109 + TAW am bob enw parth. Holodd y Cynghorydd Dave Snape a oedd y rhain yn negeseuon e-bost gwe-rwydo a chynigiodd wneud gwiriadau.
PENDERFYNWYD: *gohirio'r mater er mwyn gwneud ymholiadau pellach.*

150. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Adroddiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2017.
PENDERFYNWYD*: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Hydref 2017.*

151. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD*: cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn.*

5105	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	2 ginio yn dilyn y cyfarfod chwarterol		£32.00
5106	Y Lleng Brydeinig	Cyfraniad blynyddol		£50.00
D.D.	BT Business	Gwasanaethau band eang	*	£85.64

5107	Fineline	Calendrau elusen y Maer	*	£638.78
5108	Fineline	Cyflenwadau swyddfa	*	£5.35
5109	Clwb Rygbi Rhuthun	Cyfraniad ar gyfer tymor 2017/18		£350.00
5110	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol		£274.90
5111	Sandra Williams	Te/coffi/bisgedi – Sul y Cofio		£17.18
5112	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd	*	£180.00
5113	Llanfwrog CIC	Torri glaswellt – Tachwedd		£171.00
5114	IT Williams Co. Ltd.	Cludo a gwagu'r pridd/planhigion o'r basgedi crog	*	£502.08
5115	Fineline	Copïau ychwanegol calendrau elusen y Maer	*	£572.64

RHAN DAU – EITEM GYFRINACHOL

Cynigiwyd a chytunwyd y dylid ystyried yr eitem nesaf yn Rhan Dau, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, ac eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu.

156. TREFNIADAU BANCIO

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried diweddaru llofnodwyr y Cyngor Tref ar ei gyfrifon banc, yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Geraint Woolford.

PENDERFYNWYD*: dileu enw'r Cynghorydd Geraint Woolford o'r rhestr llofnodwyr, ac ychwanegu enw'r Cynghorydd Menna Jones fel Cadeirydd y Pwyllgor Amwynderau.*

157. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: cadarnhau mai dyddiad y cyfarfod cyffredin nesaf fydd nos Lun, 18 Rhagfyr am 7.00pm.*